Planning Inspectorate
Arolygiaeth Gynllunio

**Cais gan Uniper UK am orchymyn yn rhoi cydsyniad datblygu ar gyfer Prosiect Pŵer Carbon Isel Cei Connah (EN010166)**

**Agenda ar gyfer gwrandawiad mater penodol (ISH1):**

Darparwyd hysbysiad ynghylch dyddiad, amser, a lleoliad y gwrandawiad mater penodol 1 hwn (ISH1) yn atodiad E i lythyr Rheol 6 yr Awdurdod Archwilio (ExA) [PD-009] dyddiedig 9 Rhagfyr 2025.

| Gwrandawiad | Dyddiad ac Amser | Lleoliad |
| --- | --- | --- |
| **Gwrandawiad mater penodol 1 (ISH1)** | **Dydd Mawrth 13 Ionawr 2026**<br>**Gwrandawiad yn dechrau am 1400 o'r gloch**<br>Cofrestru a seddau ar gael yn y lleoliad o 1330 o'r gloch a phroses gofrestru rithwir o 1345 o'r gloch | Gwesty'r Village - Chester St David's<br>Parc Dewi Sant, Ewloe,<br>Glannau Dyfrdwy CH5 3YB<br>ac<br>yn rhithwir gan ddefnyddio Microsoft Teams<br>Bydd cyfarwyddiadau llawn ar sut i ymuno ar-lein neu dros y ffôn yn cael eu rhoi o flaen llaw i'r rhai sydd wedi rhag-gofrestru |

**Agenda**

**1. Croeso, cyflwyniadau, trefniadau ar gyfer y gwrandawiad**

**2. Diben y gwrandawiad mater penodol**
Bydd yr ExA yn esbonio diben y gwrandawiad, a bydd yn ceisio ymatebion gan yr Ymgeisydd a Phartïon â Buddiant (IPau). Gwahoddir Partïon â Buddiant hefyd i ofyn cwestiynau eglurhad ynglŷn â'r Gorchymyn Cydsyniad Datblygu drafft (dDCO) ac egwyddorion cyffredinol y datblygiad arfaethedig.

**3. Disgrifiad cyffredinol o'r datblygiad arfaethedig**
Gofynnir i'r Ymgeisydd ddisgrifio'r datblygiad arfaethedig yn fyr, gan gynnwys graddfa, llinell amser a'r prosesau a fydd ar waith ar y safle.

Yna, bydd yr ExA yn gofyn cwestiynau i ddeall natur a chwmpas y datblygiad arfaethedig y ceisir cydsyniad ar ei gyfer a bydd yn ceisio safbwyntiau Partïon eraill â Buddiant sy'n bresennol, os byddant yn dymuno.

| | |
|---|---|
| **3.1.** | **Trosolwg o'r datblygiad arfaethedig: mewnbynnau, allbynnau gan gynnwys trin, gwastraff a chynhyrchion oeri** |
| **3.2.** | **Graddfeydd amser adeiladu a rhyngweithio â'r gymuned leol a bywyd gwyllt** |
| **3.3.** | **Amseru'r gwaith adeiladu, gan gynnwys y penderfyniad i ddewis adeiladu'r trenau fesul cam neu ar yr un pryd** |
| **3.4.** | **Gweithredu dydd i ddydd nodweddiadol ar y safle, a rhyngweithio â'r gymuned leol a bywyd gwyllt** |
| **3.5.** | **Diwedd oes a datgomisiynu** |
| **3.6.** | **Dewisiadau amgen a ystyriwyd ar gyfer y prosiect, gan gynnwys y tu allan i ffin y brif ardal ddatblygu a chyd-fynd â chynlluniau lleol a chenedlaethol** |
| **3.7.** | **Elfen dal carbon y cyfleuster: ei gweithrediad yn y dyfodol a'i chyd-ddibyniaeth â chynlluniau eraill** |
| **3.8.** | **Dull y datblygiad arfaethedig o gyflawni "dylunio da" yn unol â'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol** |

## 4. Cyflwyniad cyffredinol i'r dDCO

Gofynnir i'r Ymgeisydd roi trosolwg byr iawn o bob rhan o'r dDCO a'r Atodlenni cysylltiedig i osod y cyd-destun a disgrifio'r hyn y mae'r dDCO yn ceisio darparu ar ei gyfer.

Bydd yr ExA yn gofyn cwestiynau ynglŷn â'r erthyglau a'r pwerau a geisir yn y dDCO mewn perthynas â'r materion canlynol ac yn ceisio safbwyntiau gan Bartïon eraill â Buddiant sy'n bresennol, os byddant yn dymuno:

| | |
|---|---|
| **4.1.** | **Trosolwg o'r DCO drafft a'r sail resymegol i bob erthygl a restrir** |
| **4.2.** | **Diffiniad o "gychwyn" a gwaith galluogi (Erthygl 2)** |
| **4.3.** | **Trosglwyddo budd y gorchymyn (Erthygl 7)** |
| **4.4.** | **Gwaith amddiffynnol i adeiladau (Erthygl 24)** |
| **4.5.** | **Caffael hawliau isbridd neu ofod awyr yn unig, yn enwedig o ran y coridor CO2 (Erthygl 33)** |

| | |
|---|---|
| **4.6.** | **Cwympo neu docio coed a symud gwrychoedd ymaith (Erthygl 42)** |
| **4.7.** | **Symud gweddillion dynol ymaith (Erthygl 51)** |
| **4.8.** | **Darpariaethau Amddiffynnol (Atodlen 13)** |
| **4.9.** | **Dogfennau ardystiedig (Atodlen 14)** |
| **4.10.** | **Llyfr Cyfeirio** |

**5. Adolygu materion, camau gweithredu sy'n codi a'r camau nesaf**

**6. Unrhyw fater arall**

**7. Diwedd y gwrandawiad**

**Diben y Gwrandawiad Mater Penodol (ISH)**

Mae'r gwrandawiad cynnar hwn ar gwmpas y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu drafft ac egwyddorion cyffredinol y datblygiad arfaethedig yn cael ei gynnal i fynd i'r afael â materion a chwestiynau a amlygwyd gan yr ExA wrth asesu'r dogfennau a ddarparwyd hyd yma, ac yn ystod llunio'r Asesiad o'r Prif Faterion, fel yr amlinellir yn atodiad C y llythyr Rheol 6 [PD-009].

Mae'r ExA o'r farn y byddai'n hwylus archwilio'r materion hyn ar lafar ar ddechrau'r Archwiliad i sicrhau y deëllir egwyddorion cyffredinol y Datblygiad Arfaethedig cyn gynted â phosibl.

Prif ddiben y gwrandawiad cyntaf yw cael trosolwg o sut y bwriedir defnyddio, adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r Datblygiad Arfaethedig ac archwilio erthyglau ac atodlenni'r dDCO.

Yn arbennig, hoffwn ystyried:

- sut bydd y datblygiad arfaethedig yn gweithredu a beth fydd yn mynd i mewn ac allan o'r datblygiad ac unrhyw risgiau cysylltiedig yn deillio o hynny.
- graddfeydd amser y datblygiad arfaethedig, yn enwedig ei raglen adeiladu, a sut bydd hyn yn rhyngweithio â'r gymuned leol a safleoedd natur amgylchynol.
- sut bydd y datblygiad arfaethedig yn rhyngweithio â'r gymuned leol a'r safleoedd natur hyn drwy gydol ei oes weithredol

O ran y DCO drafft, hoffwn ystyried:

- materion yn ymwneud â sut y bwriedir i'r dDCO weithio – beth fyddai'n cael ei gydsynio,
- hyd a lled y pwerau a pha ofynion a chytundebau a gynigir;

- unrhyw faterion atal, lliniaru neu ddigolledu posibl nad yw'r dDCO fel y'i lluniwyd ar hyn o bryd yn ymdrin â nhw;
- y cyfiawnhad dros unrhyw wyriadau oddi wrth arferion sefydledig;
- yr angen am newidiadau i ddarpariaethau deddfwriaethol eraill;
- yr angen am ddarpariaethau amddiffynnol a'u cwmpas; a
- safbwyntiau cychwynnol Partïon eraill â Buddiant ynglŷn â phriodoldeb, cymesuredd neu effeithiolrwydd y cynigion.

Ni fydd y drafodaeth yn y gwrandawiad yn rhagfarnu argymhelliad terfynol yr ExA ynglŷn â ph'un a ddylid gwneud y dDCO ai peidio. Yn ogystal â materion y dDCO y mae angen eu harchwilio ar lafar uchod, bydd materion pellach sy'n ymwneud â'r dDCO yn destun cwestiynau ysgrifenedig gan yr ExA.

Ni fydd y gwrandawiad hwn yn archwilio cynnwys manwl darpariaethau sy'n ymwneud â chaffael tir neu hawliau'n orfodol na meddiannu tir dros dro. Mae'r Amserlen Archwilio ddrafft yn cynnig Gwrandawiad(au) Caffael Gorfodol ar wahân ar y pynciau hyn ac mae'n bosibl y dychwelir atynt hefyd mewn ISHau dilynol yn ymwneud â'r dDCO.

Mae'r agenda a ddarperir uchod yn ddangosol ac fe allai newid ar y diwrnod.

Fe allai'r drafodaeth yn y gwrandawiad gyfeirio at y dogfennau canlynol, ymhlith eraill, y dylai fod gan y cyfranogwyr gopi electronig neu gopi caled ohonynt wrth law:
- Cynllun Gwaith [APP-011]
- Gorchymyn Cydsyniad Datblygu drafft [APP-019];
- Memorandwm Esboniadol [APP-020]; a
- Datganiad Cynllunio [APP-262]

**Mynychwyr**

Byddai'n ddefnyddiol i'r ExA pe gallai'r partïon canlynol fynychu'r gwrandawiad hwn.

- Yr Ymgeisydd
- Cyngor Sir y Fflint
- Ymgymerwyr Statudol
- Cynghorau Tref a Chymuned Lleol

Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu na fydd partïon eraill yn gallu cyfrannu. Gwahoddir yr holl Bartïon â Buddiant i fynychu a gwneud sylwadau llafar ar y materion a amlinellir yn yr agenda, yn amodol ar allu'r ExA i reoli'r gwrandawiad.

Mae'r ExA wedi ceisio darparu digon o fanylion i gynorthwyo'r partïon i baratoi ar gyfer y gwrandawiad. Mae'r manylion a amlinellir uchod yn ddangosol ac mae'n bosibl y bydd angen i'r ExA gynnwys eitemau agenda ychwanegol neu ddiwygio'r drefn yr ymdrinnir â'r eitemau.

Dylai unrhyw un sy'n dymuno mynychu'r gwrandawiad wyneb yn wyneb, ond nad yw eisoes wedi rhoi gwybod i dîm yr achos am hyn, wneud hynny cyn gynted â phosibl.

Bydd y digwyddiad yn cael ei ffrydio'n fyw a bydd dolen ar gyfer gwylio'r ffrwd fyw yn cael ei phostio ar dudalen we'r prosiect ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol yn agosach i ddyddiad y gwrandawiad. Felly, gall Partïon â Buddiant ac aelodau'r cyhoedd sy'n dymuno arsylwi'r gwrandawiad weld y gwrandawiad a gwrando arno gan ddefnyddio'r ffrwd fyw, neu wylio a gwrando ar y recordiad ar ôl iddo orffen.

**Y broses gofrestru**

Bydd partïon sydd wedi cofrestru i siarad (wyneb yn wyneb ac yn rhithwir) yn cael neges e-bost sy'n cynnwys cyfarwyddiadau ymuno yn fuan cyn y gwrandawiad. Bydd y neges e-bost hon yn cynnwys dolen i'r digwyddiad rhithwir ar Microsoft Teams, a rhif ffôn os bydd angen iddynt gymryd rhan dros y ffôn. Er mwyn i'r gwrandawiad allu dechrau'n brydlon am **1400 o'r gloch**, dylai'r rhai sy'n mynychu'n rhithwir ymuno am **1345 o'r gloch** i sicrhau bod yr holl fynychwyr rhithwir yn gallu cwblhau'r broses gofrestru mewn da bryd.

**Y weithdrefn mewn Gwrandawiad Mater Penodol**

Yn ôl y canllawiau o dan Ddeddf Cynllunio 2008 a Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010, mater i'r ExA yw archwilio, profi ac asesu'r dystiolaeth trwy ofyn cwestiynau uniongyrchol i'r rhai sy'n gwneud sylwadau llafar mewn gwrandawiadau. Bydd holi yn y gwrandawiad yn cael ei arwain gan yr ExA. Bydd yr ExA yn caniatáu i rywun sy'n rhoi tystiolaeth gael ei groesholi gan rywun arall dim ond os yw'n penderfynu bod hynny'n angenrheidiol i sicrhau bod sylwadau'n cael eu profi'n ddigonol neu fod Parti â Buddiant wedi cael cyfle teg i gyflwyno ei achos.

Bydd y gwrandawiad yn gorffen cyn gynted ag y bydd yr ExA yn penderfynu bod pawb sy'n bresennol wedi lleisio'i farn a bod yr holl faterion wedi derbyn sylw. Os oes materion ychwanegol i'w trin, efallai y bydd angen gohirio rhai materion i gwestiynau ysgrifenedig. Dylai'r dystiolaeth a gyflwynir ar lafar yn ISH1 gael ei chynnwys mewn cyflwyniadau ôl-wrandawiad a'i chyflwyno erbyn **Dyddiad Cau 1** (27 Ionawr 2026).

**Y Gymraeg**

Rydym yn croesawu cyfraniadau yn Gymraeg yn ystod yr archwiliad. Bydd cyfleusterau cyfieithu ar gael mewn unrhyw wrandawiadau a gynhelir, er mwyn caniatáu i'r rhai sy'n bresennol wneud cyfraniadau yn Gymraeg, os ydynt yn dymuno gwneud hynny.